# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Gorffennaf 2020

Amser: 09.30 - 11.59

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6414

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AS<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS |
| Tystion: | Sir Wyn Williams, Tribiwnlysoedd Cymru<br>Rhian Davies-Rees, Tribiwnlysoedd Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Aled Evans |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 1

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr Wyn Williams, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, mewn perthynas â'i ymchwiliad i Wneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru. Bu'r Pwyllgor hefyd yn holi Syr Wyn ar ei ddau adroddiad blynyddol cyntaf yn rhinwedd ei swydd fel Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 3.1 SL(5)568 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)572 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.2 SL(5)570 – Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru a chytunodd y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac yn rhoi ystyriaeth bellach i'r materion a godir.

### 4.3 SL(5)573 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor fod yr offeryn wedi ei ddirymu gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020.

## 5 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE

### 5.1 SL(5)569 – Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

## 6 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 6.1 WS-30C(5)162 – Rheoliad (UE) Rhif 2018/1724 Rheoliadau Rheoliad y Porth Digidol Unigol (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 6.2 WS-30C(5)163 - Rheoliadau Gwasanaethau a Chymwysterau Proffesiynol (Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â’r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

## 7 Papurau i’w nodi:

### 7.1 Llythyr gan Bennaeth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru - Craffu ar reoliadau Llywodraeth Cymru a chydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Bennaeth Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor fod y Cadeirydd wedi ymateb i'r llythyr i gydnabod y pwyntiau a godwyd.

### 7.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon - gohebiaeth gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon mewn perthynas â'i ymchwiliad i Wneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru.

### 7.3 Llythyr gan yr Aelod Seneddol Alex Chalk, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder - data ar fynediad at gyfiawnder

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder mewn ymateb i'w gais am wybodaeth ar ddata ar fynediad at gyfiawnder.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 9 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru - trafod y dystiolaeth.

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod y sesiwn gyda Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Amgylchedd - trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amgylchedd, a chytunodd arno yn amodol ar fân ddiwygiadau. Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 17 Gorffennaf 2020.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach - trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Masnach, a chytunodd arno yn amodol ar fân ddiwygiadau. Nododd y Pwyllgor fod y dyddiad cau ar gyfer adrodd wedi'i ymestyn ac y byddai ei adroddiad yn cael ei osod maes o law.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Amaethyddiaeth - trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth. Nododd y Pwyllgor fod y dyddiad cau ar gyfer adrodd wedi'i ymestyn ac y byddai ei adroddiad yn cael ei osod maes o law.

## 13 Y newid yng nghyfansoddiad Cymru - trafod y materion allweddol

Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd hyd yma mewn perthynas â'i ymchwiliad i’r Newid yng Nghyfansoddiad Cymru a'i gynlluniau ar gyfer adrodd ar y materion a godwyd.

## 14 Diweddariad Brexit – fframweithiau cyffredin

Nododd y Pwyllgor y papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil mewn perthynas â fframweithiau cyffredin.